

newyddion Cymraeg Colegau Cymru #175 02 Mawrth 2015

Croeso i e-newyddion Colegau Cymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news, the weekly roundup of news from across education colleges in Wales.

Rydyn ni wrthi ar hyn o bryd yn diweddarau ac yn mireinio'r bas-data o danysgrifwyr. Ymddiheurwn os ydych wedi derbyn y rhifyn hwn ar gam. [Cysylltwch](#) da chi os hoffech dynnu eich enw o'r tanysgrifiad Cymraeg.

We are in the process of updating and perfecting our database of subscribers. We apologise if you have received this edition in error. Do please [let us know](#) if you would like to remove your name from the Welsh-medium subscription.

Llongyfarchiadau: Llwyddiant Myfyriwr

Patagonia'n galw gyda sioe y "Mimosa"

Mae myfyriwr o Adran Celfyddydau Perfformio Grŵp Llandrillo Menai, Steven Williams, ymhlith yr 17 o bobl ifanc o bob cwr o Gymru a ddewiswyd ar gyfer y sioe 'Mimosa', sydd yn brosiect ar y cyd rhwng yr Urdd a Clwyd Theatr Cymru; Theatr ar Gyfer Pobl Ifanc.

Byddant yn gweithio ar y cynhyrchiad gyda phump o bobl ifanc o Batagonia a phedwar actor proffesiynol, gan fynd â'r cynhyrchiad ar daith yng Nghymru a Phatagonia dros yr haf.

[Mwy>>>](#)

Llwyddiant myfyriwr Arlwyyo gyda'r Urdd

Yn Ysgol Gyfun Bryn Tawe yr wythnos ddiwethaf, daeth myfyriwr Coginio Proffesiynol o Goleg Gŵyr Abertawe, Jacqueline Morgan, i'r brig yng nghystadlaeth CogUrdd categori oed 19-25.

Fe fydd hi'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili ym mis Mai.

[Mwy>>>](#)

Twrnaint Pêl-droed yn Rhufain

Mae myfyriwr chwaraeon o Goleg Sir Benfro, Dan Evans, yn mynd i Rufain ar gyfer Twrnaint Mundi Roma yr wythnos nesaf, sef cystadlaeth trwy wahoddiad yn unig sy'n cynnwys timau rhyngwladol o bob rhan o Ewrop. Bydd tîm Colegau Cymru dan 18 yn chwarae tair gêm yn ystod yr wythnos yn erbyn Malta, yr Eidal ac Albania mewn ymgais

i gyrraedd y rownd derfynol ar ddiwrnod 5.

[Mwy>>>](#)

Pêl-droedwyr y coleg yn bwrw'u golwg ar faes rhyngwladol

Mae pump chwaraewr o Academi Bêl-droed Coleg Sir Gâr wedi cael eu dewis ar gyfer capiau Colegau Cymru yn ddiweddar, gyda'r myfyrwyr chwaraeon Corey Thomas, Chris Brown a Jack Fisher wedi eu dewis i chwarae yn erbyn yr Eidal, gan gynrychioli tîm dan 18 Colegau Cymru yn Stadiwm Comunale yn Ardena, a'r myfyriwr gradd Sion William a myfyriwr Safon Uwch Callum Silcox wedi chwarae yn erbyn yr Alban, Lloegr ac Awstralia ar gyfer Colegau Cymru dan 19.

[Mwy>>>](#)

Cystadlaethau Sgiliau Cymru

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru: Coginio Proffesiynol

Daeth myfyrwyr adrannau arlwy o bob cwr o Ogledd Cymru ynghyd ar gyfer rownd rhanbarthol Cystadleuaeth Coginio Proffesiynol Sgiliau Cymru a leolwyd yng Ngholeg Menai'r wythnos ddiwethaf.

[Mwy>>>](#)

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru: adeiladwaith

Mae 76 o fyfyrwyr adeiladwaith ledled Gogledd Cymru wedi bod yn brwydro yn erbyn ei gilydd yn rowndiau rhanbarthol Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yng Ngholeg Menai, Llangefni, sy'n rhan o Grŵp Llandrillo Menai. Bydd y deuddeg person sydd â'r sgoriau uchaf yn rowndiau rhanbarthol gogledd Cymru a de Cymru yn mynd ymlaen i gystadlu yn rownd derfynol ranbarthol SkillBuild Cymru a gynhelir yng Ngholeg Cambria ddiwedd y mis.

[Mwy>>>](#)

Cyfleoedd Dysgu

Golygydd y Sunday Times yn rhoi tips i fyfyrwyr

Mewn cynhadledd i ddarpar newyddiadurwyr o Gampws Dinas Casnewydd Coleg Gwent yn ddiweddar, bu golygyddion o bapurau newydd cenedlaethol 'The Sun' a 'The Times' yn rhannu eu profiad llaw gyntaf gyda'r myfyrwyr.

[Mwy>>>](#)

Tystysgrifau hyfforddi chwaraeon yn y Gymraeg

Drwy brosiect a ariennir gan ColegauCymru, mae myfyrwyr chwaraeon Coleg Sir Gâr wedi elwa o sesiwn hyfforddi athletau gan Urdd Gobaith Cymru sydd wedi lledaenu ystod eu cymwysterau gan gynnwys cydnabyddiaeth benodol

o'u galluoedd i hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg.

[Mwy>>>](#)

Ysbrydoliaeth farddonol

Mewn gweithdy arbennig yr wythnos ddiwethaf, bu Bardd Pobl Ifanc Cymru, Martin Daws, ac enillydd cyntaf Gwobr Dylan Thomas, Rachel Trezise, yn annog myfyrwyr Safon Uwch yng Ngholeg Gŵyr Abertawe i ddefnyddio Cymru a'r diwylliant Cymreig fel ysbrydoliaeth ar gyfer eu hysgrifennu.

[Mwy>>>](#)

Y busnes siocled

Cafodd criw o fyfyrwyr busnes o Goleg y Rhyl, sy'n rhan o Grŵp Llandrillo Menai, gynghorion gwerthfawr ar farchnata diolch i seminar gan Cadbury's yn Cadbury World yr wythnos ddiwethaf.

[Mwy>>>](#)

Sgiliau cerfio iâ dysgwyr arlwyo

Mae dysgwyr arlwyo Coleg y Cymoedd wedi cerfio cyfres o elyrch o flociau o iâ yn dilyn arddangosfa a gweithdy ymarferol gan arbenigwyr y sefydliad 'The Ice Academy'.

[Mwy>>>](#)

Coleg yn Penodi Artistiaid Preswyl

Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi penodi tri artist preswyl mewn partneriaeth ag Oriel Mission: Gareth Southwell, Jason Cartwright a Becky Williams.

[Mwy>>>](#)

Perfformio 'The Tempest' a gweithdai ôl-berfformiad

Mae myfyrwyr Gradd Sylfaen yn y Celfyddydau Perfformio yng Ngholeg Merthyr Tudful wedi llwyfannu eu cynhyrchiad mawr cyntaf, drama gymhleth The Tempest gan Shakespeare, gyda chefnogaeth mentor diwydiant Michael Waters o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Cafodd ysgolion lleol a myfyrwyr coleg hefyd eu trin i weithdai ôl-perfformiad.

[Mwy>>>](#)

Ysgol Undydd Cymraeg yng Ngholeg Gwent

Daeth mwy na 90 o ddysgwyr i Ysgol Undydd Cymraeg a threfnwyd gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Coleg Gwent yn ddiweddar yn yr Orsaf Bŵer yng Nghwmbrân, ochr yn ochr â Nia Parry S4C.

[Mwy>>>](#)

Colegau yn y Gymuned

Myfyrwyr Coleg yn Cynnal Gŵyl Rygbi Ysgolion Cynradd

Arweiniodd partneriaeth rhwng Grŵp Llandrillo Menai ac Undeb Rygbi Cymru (WRU) at ŵyl rygbi tag ar gyfer bechgyn a merched o ysgolion cynradd yr wythnos hon yng nghyfleuster Ysgubor Parc Eirias. Cynhaliwyd, rheolwyd a threfnwyd y digwyddiad gan fyfyrwyr o Academi Rygbi Coleg Llandrillo.

[Mwy>>>](#)

Myfyrwyr yn paentio ysgol yn wirfoddol

Bu grŵp o ddysgwyr y cwrs adeiladu yn ad-dalu cymwynas i'w cymuned drwy wirfoddoli i addurno ysgol leol, Ysgol Gymunedol Sir Y Porth.

[Mwy>>>](#)

Coleg Ceredigion Yn Noddi Gwobr Y Selar

Yng ngwobrau cerddoriaeth Y Selar, sy'n cydnabod y gorau mewn cerddoriaeth Gymraeg yn ystod y flwyddyn, noddwyd y wobr am yr Offerynnwr Gorau gan Goleg Ceredigion.

[Mwy>>>](#)

Nodyn i'r Dyddiadur

Coleg Caerdydd a'r Fro yn galw am egin awyrofodwyr ac adeiladwyr

I nodi Wythnos Beirianeg Genedlaethol, mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn cynnal cystadlaethau arbennig dros dridiau, o 20-24 Mawrth, ar gyfer disgyblion ysgol Blwyddyn 10 o bob rhan o Gaerdydd a Bro Morgannwg.

[Mwy>>>](#)
